GWYL PAN GELTAIDD 2012

O'r 9fed hyd y 15fed o Ebrill cynhaliwyd yr Ŵyl Ban Geltaidd yn nhref Ceatharlach (Carlow) yr Iwerddon. Cafwyd Gwyl arbennig iawn eto eleni gyda'r chwech Gwlad geltaidd yn bresennol a'r dref yn fwrlwm o weithgareddau.

Roedd nifer fawr o Gymru yno, rhai wedi teithio eu hunain a gwneud eu trefniadau personol, rhai wedi dod ar deithiau a drefnwyd gan Gwmniau Bysiau masnachol a thua 90 wedi dod trwy drefniant **Mudiad Pan Geltaidd (Cymru)**.

Sefydlwyd y Mudiad hwn gan Tegwyn Williams, Llanelwy tua 35 mlynedd yn ôl a mae wedi symud ymlaen o nerth i nerth tros y blynyddoedd yn trefnu gweithgareddau Cymru yn yr Ŵyl, a hefyd yn trefnu bysiau a darpariaeth drylwyr ar gyfer yr ymwelwyr, a Tegwyn yn dal yn rhan amlwg o'r trefniadau.

Yr hyn a gynigiwyd i'r rhai a aeth gyda'r **Mudaid Pan Geltaidd** eleni oedd y daith bws (un o'r Gogledd a un o'r De) i Ceatharlach yn cynnwys cost y Fferi, Tocynnau i holl weithgareddau yr Ŵyl a llety o'r safon y dymunwch ei gael, ar gost am y cyfan eleni oedd - gyda Hunan Arlwyaeth (Hostel) £186 y person, Llety Gwely a Brecwast £323 y person, Mewn Gwesty moethus lle y cynhelir y rhan fwyaf o weithgareddau'r Ŵyl £423. Yn ystod y cyfnod hefyd gan fod y bysiau yno trefnir teithiau ychwanegol i'r sawl a ddymuna am brisiau rhesymol iawn. Eleni aethpwyd i Waterford, Mynyddoedd Wicklow, y Gerddi Hynafol a Dulyn.

Fel y cyfeirwyd roedd bys o'r Gogledd yn cychwyn o Lanelwy a bys o'r De yn cychwyn o'r Tymbl. Eleni bu yn rhaid gwrthod rhai am nad oedd digon o le ar y bysiau, ac fe hoffai'r mudiad drefnu Bws o'r Canolbarth y flwyddyn nesaf yn cychwyn o Fachynlleth os oes digon o ddiddordeb. Yn Ceatharlach y bydd yr Ŵyl eto y flwyddyn nesaf a'r cyfnod yn debyg i eleni a'r gost gobeithio.

Gan fod Tegwyn, Arwel ac Emyr, Swyddogion y Mudiad yn cychwyn ar y trefniadau tua Mis Medi, os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r daith o'r Canolbarth y flwyddyn nesaf rhowch wybod i ARWEL ROBERTS, FACHWEN, FFORDD RHYL, RHUDDLAN. Ffôn – 01745 590869, arwelroberts@tiscali.co.uk neu HEDD BLEDDYN, BRYNPEIRAN, PENEGOES, MACHYNLLETH. Ffôn – 01654 703876, e-bost – heddbleddyn@btinternet.com neu ROBIN O. WILLIAMS, PENIARTH, HEOL Y COLEG, BALA, Ffôn – 01678 529940.

Os bydd bws o'r Cnolbarth bydd yn ofynnol i'r rhai o Ogledd Ceredigion ddod i Fachynlleth yna bydd yn casglu ar ei daith trwy Faldwyn a Meirion a hefyd rhai o Arfon a Môn os bydd angen.